Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhaglen Grant Cyfalaf Adeiladau Hanesyddol 2019/20

## Meini Prawf a Ffurflen Mynegi Diddordeb

Medi 2019

Cadw

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| 1. Y broses gwneud cais | 3 |
| 2. Pwy all wneud cais | 3 |
| 3. Beth y byddwn yn ei ariannu | 3 |
| 4. Faint o arian sydd ar gael | 4 |
| 5. Cymhwysedd | 4 |
| 6. Meini prawf â blaenoriaeth | 4 |
| 7. Ble y gallaf gael help? | 5 |
| 8. Ffynonellau eraill lle gellir cael cyngor ac arian | 5 |
| 9. Atal twyll | 5 |
| Ffurflen Gais er mwyn Mynegi Diddordeb | 6 |


Llywodraeth Cymru
Gwasanaeth yr Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Plas Caeriw
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 03000 256000
Ebost: cadw@llyw.cymru

ISBN Digidol 978 1 83933 201 2
OGL © Hawlfraint y Goron 2019, Llywodraeth Cymru, Cadw, ac eithrio lle nodir yn whanol. WG38992

Gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru yw Cadw, sy'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei ddiogelu'n dda.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.This document is also available in English.

# Cyflwyniad ¬

Mae cynllun grant adeiladau hanesyddol Cadw yn cefnogi strategaeth 'Ffyniant i Bawb' Llywodraeth Cymru, drwy gynnig grantiau tuag at gost atgyweirio ac adfer asedau cymunedol hanesyddol, megis neuaddau pentref a neuaddau cymunedol, institiwtau a llyfrgelloedd. Gall addoldai sydd ar gael at ddefnydd cymunedol ehangach hefyd fod yn gymwys.

## 1. Y broses gwneud cais ¬

Yn 2019/20, bydd y cynllun grant yn gweithredu fel proses dau gam:

**Cam 1:** Cais agored i'r sector Fynegi Diddordeb.

**Cam 2:** Gofynnir i ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau cais llawn a'i gyflwyno. Rhaid i geisiadau sy'n rhan o'r ail gam fod yn gyson â'r cynnig a amlinellwyd yn y ffurflen Mynegi Diddordeb a gymeradwywyd.

Bydd y ddau gam yn gystadleuol, ac **nid yw ffurflen Mynegi Diddordeb lwyddiannus yn gwarantu llwyddiant yng ngham 2.**

Mae'r amserlen ar gyfer cynllun grant 2019/20 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyflwyno ffurflenni Mynegi Diddordeb | Erbyn 15 Tachwedd 2019 |
| Cyhoeddi penderfyniadau Cam 1 | Erbyn 31 Ionawr 2020 |
| Cyflwyno ceisiadau Cam 2 | Erbyn 13 Mawrth 2020 |

Rydym yn rhagweld y bydd cyfleoedd pellach i gyflwyno Mynegiadau o Ddiddordeb yn 2020.

## 2. Pwy all wneud cais ¬

- Perchenogion
- Ymddiriedolwyr

## 3. Beth y byddwn yn ei ariannu ¬

Atgyweirio ac adfer asedau cymunedol hanesyddol fel neuaddau pentref a neuaddau cymunedol, institiwtau, llyfrgelloedd ac addoldai hanesyddol sydd ar gael at ddefnydd cymunedol ehangach.

Mae'r pwyslais ar warchod ac atgyweirio; ni fydd Cadw yn ariannu adeiladau newydd na gwaith i wasanaethau. Fel arfer, caiff adeiladau cymwys eu rhestru am eu diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig.

Fel arfer, ni fydd adeiladau sy'n eiddo preifat yn gymwys am gymorth grant oni fyddant yn agored i'r cyhoedd yn rheolaidd ac yn gallu bodloni'r meini prawf â blaenoriaeth a nodir isod.

## 4. Faint o arian sydd ar gael ¬

Cynigir hyd at uchafswm o 50 y cant o eitemau sy'n gymwys i gael grant Cadw yn seiliedig ar yr isaf o 3 thendr hyd at uchafswm o £50,000.

## 5. Cymhwysedd ¬

Er mwyn cael ei ystyried yn gymwys, dylai pob cais fodloni'r meini prawf canlynol:

- rhaid sicrhau bod pob caniatâd adeilad rhestredig perthnasol yn weithredol cyn cyflwyno cais Cam 2
- rhaid i bob prosiect gael ei gwblhau erbyn **31 Mawrth 2021** neu ni fydd yr arian ar gael mwyach
- mae cynghorydd proffesiynol arweiniol (pensaer, syrfëwr adeiladau siartredig neu dechnolegydd pensaernïol siartredig fel arfer) eisoes wedi'i benodi. Pan fydd cyfanswm cost prosiect yn £10,000 neu fwy bydd gan y cynghorydd hwn achrediad/ardystiad cadwraeth. Ar hyn o bryd rydym yn derbyn:
  - **Penseiri** sydd wedi'u rhestru ar Gofrestr AABC yng nghategori 'A' (www.aabc-register.co.uk/), Cofrestr RIAS ar lefel Achrededig neu Uwch (www.rias.org.uk/directory/conservation/) neu Gofrestr Cadwraeth RIBA ar lefel Pensaer Cadwraeth Arbenigol (www.architecture.com/education-cpd-and-careers/membership-and-accreditation/specialist-conservation-architect-sca)
  - **Syrfewyr adeiladau siartredig** sydd wedi'u rhestru ar Gofrestr Achrediad Cadwraeth Adeiladau RICS (www.rics.org/uk/join/member-accreditations/building-conservation-accreditation/)
  - **Technolegwyr pensaernïol siartredig** sydd wedi'u rhestru yng Nghyfeiriadur Cadwraethwyr CIAT ar lefel Cadwraethwr Achrededig (https://ciat.org.uk/find-a-practice/find-an-accredited-conservationist.html)

  Mewn rhai achosion, efallai y gall Cadw dderbyn peiriannydd siartredig neu arbenigwr treftadaeth arall fel y swyddog proffesiynol arweiniol priodol, ond byddai'n rhaid cytuno ar hyn cyn cynnig unrhyw grant.

## 6. Meini prawf â blaenoriaeth ¬

Mae'r meini prawf allweddol yn cynnwys:

- cynlluniau atgyweirio a fydd yn helpu i roi bywyd newydd i adeiladau rhestredig y mae Cadw wedi'u categoreiddio'n rhai 'mewn perygl' ac a fydd o fudd i gymunedau yng Nghymru
- adeiladau sy'n rhan o berchenogaeth gymunedol a chynlluniau sy'n helpu i gynnal a chadw cyfleusterau sy'n dwyn pobl ynghyd
- cynlluniau sy'n ysgogi cyfleoedd adfywio ac sy'n cyflwyno buddiannau helaeth i gymunedau
- datblygu sgiliau, hyfforddiant a chyfleoedd mynediad gwell — ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn 'Grantiau ar gyfer Asedau Hanesyddol: Datblygu Sgiliau a Chyfleoedd Mynediad'.

## 7. Ble y gallaf gael help? ¬

Os bydd angen unrhyw help neu wybodaeth bellach arnoch mewn perthynas â Mynegi Diddordeb, dylech gysylltu â'r tîm grantiau Adeiladau Hanesyddol:

Anne Thomas 03000 259061: anne.thomas@llyw.cymru

Alex King 03000 256072: alex.king@llyw.cymru

Laura Roberts 03000 256046: laura.roberts7@llyw.cymru

Louise Steel 03000 256048: louise.steel2@llyw.cymru

Leanne Morgan 03000 256221: leanne.morgan@llyw.cymru

Gall eich pensaer/syrfëwr gysylltu ag Arolygwr Adeiladau Hanesyddol perthnasol Cadw os ydynt am drafod unrhyw agweddau technegol ar y prosiect arfaethedig

Gogledd Cymru – Nick Davies: 01691 712746: nick.davies@llyw.cymru

Canolbarth Cymru – Jill Fairweather: 03000 256133: jill.fairweather@llyw.cymru

De Cymru – Jonathan Green: 03000 256134: jonathan.green@llyw.cymru

## 8. Ffynonellau eraill lle gellir cael cyngor ac arian ¬

Mae grantiau hefyd ar gael ar gyfer adeiladau hanesyddol gan Adrannau eraill o Lywodraeth Cymru, megis y **Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol** gov.wales/topics/people-and-communities/communities/community-facilities-programme/?lang=cy, neu gan sefydliadau megis **Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol** https://www.heritagefund.org.uk/cy neu **Ymddiriedolaeth Genedlaethol** yr Eglwysi www.nationalchurchestrust.org/

Cyhoeddir canllaw ar-lein am ddim, a gaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd, ar ffynonellau ariannu perthnasol ar gyfer adeiladau hanesyddol gan y **Cyfeirlyfr Ariannu Treftadaeth** www.heritagefundingdirectoryuk.org/

## 9. Atal twyll ¬

Caiff y wybodaeth a gesglir gennym oddi wrthych ei rhannu ag asiantaethau atal twyll a fydd yn ei defnyddio i atal achosion o dwyll a gwyngalchu arian ac i gadarnhau pwy ydych. Os canfyddir achos o dwyll, mae'n bosibl y caiff rhai gwasanaethau penodol, arian neu gyflogaeth eu gwrthod i chi yn y dyfodol. Gallwch gael rhagor o fanylion am y ffordd y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio gennym ni a'r asiantaethau atal twyll hyn, a'ch hawliau diogelu data, drwy anfon e-bost i Data.ProtectionOfficer@gov.wales

O dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i ddiogelu unrhyw wybodaeth bersonol y byddwn yn ei chasglu gennych.

Rydym yn casglu'r wybodaeth hon er mwyn cadw cofnod o'r ceisiadau a ddaw i law.

Pan fydd grant yn llwyddiannus, byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am hyd at 10 mlynedd er mwyn cydymffurfio ag amodau penodol y grant.

Ceir rhagor o fanylion am eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yma, (ico.org.uk/your-data-matters/) neu gallwch gysylltu â Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhaglen Grant Cyfalaf Adeiladau Hanesyddol 2019/20 ¬

## Ffurflen Gais er mwyn Mynegi Diddordeb

Cadw

## Noder

Rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon er mwyn Mynegi Diddordeb ar gyfer y Rhaglen Grant Cyfalaf Adeiladau Hanesyddol.

Dylech ddarllen y canllawiau ar y Meini Prawf ar gyfer Mynegi Diddordeb cyn cwblhau'r ffurflen hon. Cwblhewch bob adran o'r ffurflen. Mae'n bosibl na dderbynnir ffurflenni anghyflawn.

Os bydd eich ffurflen Mynegi Diddordeb yn llwyddiannus, cewch wahoddiad i ddatblygu a chyflwyno cais llawn. Noder nad yw ffurflen Mynegi Diddordeb lwyddiannus yn gwarantu y byddwn yn ariannu eich prosiect.

Dylech anfon eich ffurflenni Mynegi Diddordeb wedi'u cwblhau i'r tîm grantiau Adeiladau Hanesyddol erbyn **15 Tachwedd 2019**.

**Ni fyddwn yn derbyn unrhyw geisiadau ar ôl y dyddiad hwn.**

# Mynegi Diddordeb

## Ynglŷn â'r ymgeisydd

Enw'r ymgeisydd: ☐

## Statws (ticiwch)

Perchennog ☐

Ymddiriedolwr ☐

## Prif gyswllt ar gyfer y prosiect

Enw: ☐

Cyfeiriad: ☐

E-bost: ☐

Ffôn: ☐

## Ynglŷn â'r eiddo

Enw a chyfeiriad yr eiddo y mae'r ffurflen Mynegi Diddordeb hon yn berthnasol iddo:

☐

## A yw'r eiddo yn (ticiwch)

Ased cymunedol
(neuadd bentref, neuadd gymunedol, llyfrgell ac ati) ☐

Cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel addoldy ☐

Arall ☐

## Manylion yr eiddo

## A yw'r eiddo yn eiddo rhestredig?

Ydy ☐

Nac ydy ☐

Gradd rhestru (ticiwch un opsiwn) I ☐ II* ☐ II ☐

Rhif rhestru

## Ydych chi wedi penodi cynghorydd proffesiynol?

Ydy ☐

Nac ydy ☐

## Enw a chyfeiriad y cynghorydd proffesiynol arweiniol

## Ar gyfer cynlluniau lle mae costau'r prosiect yn £10,000 neu fwy, rhowch fanylion achrediad cadwraeth y cynghorydd proffesiynol arweiniol (gweler nodyn canllaw 5).

## Ceisiadau blaenorol i Cadw

Cadarnhewch p'un a gafwyd neu p'un a wnaed cais am grant gan Cadw ar gyfer yr eiddo hwn.

## Y defnydd presennol o'r eiddo

## Defnydd arfaethedig ar ôl atgyweirio/adfer

## Trosolwg o'r prosiect

**Disgrifiad o'r gwaith arfaethedig**

Disgrifiwch yn gryno ond yn glir pa waith atgyweirio/adfer a wneir a pham bod angen y gwaith hwnnw (uchafswm o 200 o eiriau).

|  |
|---|
|  |

## Costau amcangyfrifedig y gwaith

| | |
|---|---|
| Cost amcangyfrifedig | |
| Grant y gwneir cais amdano | |

## Ffynonellau ariannu eraill

**A ydych wedi sicrhau neu wedi gwneud cais am unrhyw arian arall?**

Cadarnhewch yn gryno p'un a ydych wedi sicrhau neu wedi gwneud cais am unrhyw arian arall ar gyfer y prosiect hwn. Os ydych wedi gwneud cais am arian, nodwch pryd rydych yn disgwyl penderfyniad (uchafswm o 200 o eiriau).

|  |
|---|
|  |

## Meini Prawf â Blaenoriaeth

**Eglurwch sut y bydd eich prosiect arfaethedig yn bodloni'r blaenoriaethau canlynol.**

Cynlluniau atgyweirio a fydd yn helpu i roi bywyd newydd i adeiladau rhestredig sydd mewn perygl (uchafswm o 300 o eiriau)

Buddiannau cymunedol (uchafswm o 300 o eiriau)

## Darparu cyfleoedd datblygu sgiliau a hyfforddi (uchafswm o 300 o eiriau)

| |
|---|
| |

## Mynediad cyhoeddus (uchafswm o 300 o eiriau)

| |
|---|
| |

## Datganiad

Cadarnhaf nad yw'r gwaith a ddisgrifir wedi dechrau a bod y wybodaeth ar y ffurflen Mynegi Diddordeb hon yn gywir.

| | |
|---|---|
| Enw: | |
| Swydd: | |
| Cyfeiriad: | |
| E-bost: | |
| Ffôn: | |
| Llofnod: | |
| Dyddiad: | dd / mm / yyyy |